# POLISI DERBYNIADAU ADDYSG UWCH
# HIGHER EDUCATION ADMISSIONS POLICY

Awdur: Rachel Langford - Uwch Swyddog: Derbyniadau a Susan Moss Rheolwr Addysg Uwch
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024
Enw'r Adolygwr Tessa Jennings – Is-bennaeth: Academaidd a Victoria Burroughs Pennaeth Cynorthwyol: AU Dyddiad Adolygu Medi 2026

| ADRAN | RHIF TUD. | PARAGRAFF |
|---|---|---|
| 1. CYD-DESTUN | 3 | 1.1-1.5 |
| 2. STATWS | 3 | 2.1-2.2 |
| 3. POLISI | 4 | 3.1-3.2 |
| 4. GWEITHDREFN | 4 | 4.1-4.32 |
| 5. MONITRO | 8 | 5.1-5.3 |
| 6. ADOLYGU | 8 | 6.1-6.2 |
| Atodiad: 1 | 9 | |

Os hoffech chi neu rywun rydych yn ei adnabod dderbyn y ddogfen hon mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Swyddog Amrywiaeth yn diversity@nptc.ac.uk

## ADRAN 1: CYD-DESTUN

1.1 Cenhadaeth y Coleg yw "Ysbrydoli Dysgu, Cyfoethogi Bywydau, Cyflwyno Llwyddiant”. Er mwyn gwireddu'r datganiad cenhadaeth mae'r Coleg yn ceisio darparu cwricwlwm sy'n hygyrch ar bob lefel, i bob myfyriwr ac i fod yn Goleg cynhwysol.

1.2 Mae Polisi Derbyn tryloyw a theg yn rhan o'r broses o sicrhau y gall myfyrwyr gyflawni eu potensial dysgu ac, o ganlyniad, i'r Coleg gyflawni ei genhadaeth a'i nodau a'i amcanion strategol.

1.3 Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol gan gynnwys:

- Deddf Diogelu Data 2018,
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2016
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg (Cymru)
- Gofynion Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI)

1.4 Mae'r Polisi hwn yn ystyried arfer gorau'r sector gan gynnwys:

- Cod Ansawdd diwygiedig yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch Mai 2023
- Canllawiau a llawlyfrau UCAS
- Egwyddorion yr Adroddiadau Schwartz o ran derbyniadau teg
- Arfer da a argymhellir gan Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyniadau (SPA)
- Gofynion prifysgolion a chyrff proffesiynol achredu perthnasol.
- Adolygiad Derbyniadau Teg UUK
- Derbyniadau teg mewn Addysg Uwch: Derbyniadau Cyd-destunol: 2022

1.5 Dylai unrhyw aelod staff sydd angen cymorth wrth ddeall neu weithredu'r polisi hwn, yn enwedig pan fydd y rhesymau dros hyn yn gysylltiedig ag anableddau, crefydd neu gred, rhyw, ailaseinio rhyw, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, oedran neu hil gysylltu â'r Uwch Swyddog: Amrywiaeth neu Uned AD am gyngor yn y lle cyntaf:

## ADRAN 2: STATWS

2.1 Dyma’r tro cyntaf i'r Polisi Derbyniadau Addysg Uwch gael ei gyflwyno. Mae Polisi Derbyniadau cyffredinol wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2009. Diweddarwyd hwn ar ôl y cyfuniad yn 2013, ac fe'i diweddarwyd eto i ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r nodweddion "gwarchodedig". Adolygwyd y polisi yn ddiweddar ym mis Mai 2019

a diwygiwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Effaith Ieithyddol yn ddiweddar ym mis Medi 2024. Ymgymerwyd ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y Polisi Derbyniadau Addysg Uwch ym mis Mawrth 2022 a mis Medi 2024.

2.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob ymgeisydd Addysg Uwch sy'n mynychu unrhyw un o gampysau Grŵp Colegau NPTC.

## ADRAN 3: POLISI

3.1 Nod y Polisi hwn yw sicrhau triniaeth gyfartal i bob ymgeisydd sy'n ymgeisio am fynediad fel myfyrwyr i'r Coleg drwy gydymffurfio ag arfer gorau a deddfwriaeth briodol. Y brif ddeddfwriaeth berthnasol yw Deddf Cydraddoldeb 2010.

3.2 Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol sydd ar gael ar wefan y Coleg, Moodle a SharePoint:

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Safonau Preifatrwydd
- Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr AU
- Hawliau Myfyrwyr a'r Côd Ymddygiad
- Amodau a Thelerau Safonol
- Polisi Disgyblu Myfyrwyr
- Ffioedd Myfyrwyr Addysg Uwch
- Cynllun Ffioedd a Mynediad
- Cynllun Iaith Gymraeg
- Polisi Cwynion

## ADRAN 4: GWEITHDREFN

4.1 Mae'r Coleg yn croesawu ymholiadau a cheisiadau gan bob sector o'r gymuned.

4.2 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau amgylchedd diogel i'r holl staff, myfyrwyr a chleientiaid eraill. Mae'r Coleg yn glynu wrth yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i ddatgelu a oes ganddynt unrhyw euogfarnau troseddol heb eu darfod/achosion llys sydd ar y gweill. Ymdrinnir â datgeliadau'n sensitif ac yn gyfrinachol. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n datgelu euogfarn droseddol/achos llys sydd ar y gweill fod yn destun asesiad risg priodol cyn i'r cynnig amodol gael ei wneud neu'r ffurflen ymrestru gael ei phrosesu.

4.3 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod unigolion sydd ag anableddau, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu trin yn deg. Gwneir pob addasiad rhesymol i'r ddarpariaeth i sicrhau nad yw'r fath fyfyrwyr a phobl eraill sy'n defnyddio cyfleusterau'r Coleg ag anabledd o dan anfantais. Bydd pob datgeliad o anabledd yn cael ei drin yn sensitif a'i ddefnyddio er budd posib y

myfyriwr yn unig. Anogir ymgeiswyr i ddatgan anghenion cymorth ychwanegol cyn gynted â phosib yn y broses dderbyn er mwyn sicrhau y gellir gwneud addasiadau rhesymol cyn dechrau'r cwrs lle bynnag y bo modd.

4.4 Mae dwy ffordd o wneud cais am astudio cyrsiau addysg uwch yng Ngrŵp Colegau NPTC; naill ai drwy System Dderbyn y Brifysgol a'r Colegau (UCAS) neu drwy ein porth ymgeisio ar-lein. Dylai ymgeiswyr wneud cais drwy UCAS os ydynt yn astudio ar gyfer Safon Uwch ar hyn o bryd, cwrs lefel 3 galwedigaethol, neu gymhwyster Mynediad i Addysg Uwch ac yn gwneud cais i raglen amser llawn.
Dim ond os ydynt yn gwneud cais am astudio cwrs rhan-amser, rhaglen atodol, neu brentisiaeth gradd y dylai ymgeiswyr wneud cais drwy Borth Ymgeisio Ar-lein Grŵp Colegau NPTC. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr sydd am astudio yng Ngrŵp Colegau NPTC nad ydynt wedi cyflwyno cais UCAS ar gyfer yr un cylch ymgeisio y mae hyn. I wneud cais drwy Borth Ymgeisio Ar-lein y Coleg, mae'n rhaid i ymgeiswyr eisoes feddu ar gymwysterau a/neu brofiad sy'n ofynnol i fodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y cwrs.

4.5 Bydd gwybodaeth ymgeiswyr yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016. Gan fod cyrsiau Addysg Uwch y Coleg yn gweithredu o dan fasnachfraint gan brifysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill, bydd gwybodaeth benodol yn cael ei rhannu â nhw. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr AU a'r Polisi Preifatrwydd Safonol.

4.6 Mae'r Coleg yn falch o fod yn un o lofnodwyr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ac mae'n gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau y gall aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ac wedi ymddeol gael mynediad i gymorth, cyngor ac arweiniad priodol i'w helpu wrth ddychwelyd i addysg.

4.7 Mae gan raglenni unigol eu gofynion mynediad eu hunain, yn seiliedig ar gymwysterau, profiad ac addasrwydd. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Coleg ac mewn gwybodaeth brintiedig. Mae'r holl wybodaeth yn gywir adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, gan fod deunydd printiedig yn cael ei gynhyrchu fisoedd cyn i gyrsiau ddechrau, dylai ymgeiswyr bob amser gyfeirio at wefan y Coleg i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am feini prawf derbyn, materion ariannol, cynnwys y cwrs a gweithdrefnau.

4.8 Bydd Tîm Derbyn y Coleg yn ymateb i geisiadau am wybodaeth o fewn 3 diwrnod gwaith a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad cyfweliadau o fewn 5 diwrnod gwaith.

4.9 Bydd pob rhaglen AU llawn amser a rhaglenni rhan-amser sylweddol yn cynnwys cyfweliad fel rhan o'r broses dderbyn.

4.10 Yn ystod y cyfweliad, bydd staff yn cwblhau rhestr wirio cyfweld gydag ymgeiswyr i asesu eu haddasrwydd ar gyfer y cwrs.

4.11 Bydd rhai cyfweliadau'n cynnwys clyweliad neu gynhyrchu portffolio o waith, mae'r cyrsiau gyda'r gofynion hyn yn gwneud hyn yn glir yng ngwybodaeth y cwrs.

4.12 Gall ffugio canlyniadau a chymwysterau arwain at gamau disgyblu, neu wrthod lle i'r ymgeisydd, mae rhagor o fanylion am y broses ddisgyblu i'w gweld yn y Polisi Disgyblu Myfyrwyr sydd ar gael ar y wefan.

4.13 Bydd pob rhaglen sy'n cynnwys lleoliadau gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr fod yn destun gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gallai methu â gwneud hynny olygu nad yw'n bosib cwblhau'r cymhwyster ac felly tynnu allan o'r rhaglen astudio.

4.14 Disgwylir i fyfyrwyr lynu wrth y Cod Hawliau ac Ymddygiad Myfyrwyr.

4.15 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i ymgeisydd sydd wedi ymrestru gyda'r Coleg yn flaenorol ac y bu ei bresenoldeb a/neu ei ymddygiad cyffredinol yn anfoddhaol neu ymgeisydd sydd wedi'i wahardd o Grŵp Colegau NPTC neu sefydliadau addysg eraill yn flaenorol, gweler y polisi Addasrwydd i Astudio a chan gydweddu â pholisïau sefydliadau partner.

4.16 Gall ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r holl ofynion mynediad ar gyfer cwrs penodol gael lle, yn ddarostyngedig i amodau penodedig, yn ôl disgresiwn yr ysgol academaidd briodol. Bydd yr amodau hyn yn cael eu hesbonio'n glir i'r ymgeisydd yn y cyfweliad.

4.17 Bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech i Gydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) yn amodol ar y meini prawf a bennir gan bartneriaid dyfarnu. Dylai ymgeisydd hysbysu'r Coleg os oes ganddo astudiaeth flaenorol, profiad gwaith a hyfforddiant a allai gyfrif fel credyd tuag at eu rhaglen astudio.

4.18 Derbyniadau Cyd-destunol yw pan ddefnyddir ystyriaeth o wybodaeth ychwanegol y tu hwnt i gyrhaeddiad academaidd, megis eich cefndir economaidd cymdeithasol wrth ystyried eich cais. Yng Ngrŵp Colegau NPTC rydym wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad a darparu cyfleoedd addysgol i bawb ac rydym yn ystyried pob cais yn unigol, gan gymryd unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â chefndir ymgeiswyr i ystyriaeth.

4.19 Bydd ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus wrth gael lle ar y cwrs y maent wedi gwneud cais amdano yn cael cynnig cyngor ac arweiniad priodol ac i drafod opsiynau eraill ar gyfer cyrsiau neu hyfforddiant addysgol.

4.20 Yn ystod y broses dderbyn, mae gan yr ymgeisydd hawl i'r wybodaeth ganlynol:

- costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen (gan gynnwys ymrestru, arholiadau, ffioedd cofrestru sefydliadau dyfarnu ac unrhyw bolisïau ad-daliadau, yn ogystal ag offer, gwisg unffurf neu ddillad amddiffynnol, teithiau coleg gorfodol), gweler y Polisi Ffioedd Addysg Uwch am fwy o fanylion
- cymwysterau a enillwyd o'r rhaglen
- cyfleoedd i wneud cynnydd
- braslun o gynnwys y rhaglen
- y math o asesiad

- ffynonellau cymorth ariannol sy'n berthnasol i'r rhaglen astudio
- cyfleusterau gofal plant
- cymorth astudio
- trefniadau arbennig ar gyfer ymgeiswyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac anghenion iechyd
- gweithdrefn gwynion

4.21 Fel rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg, gall ymgeiswyr ofyn i unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth gael ei darparu yn Gymraeg. Gellir darparu gwybodaeth a gohebiaeth hefyd mewn amrywiaeth o fformatau a dylai ymgeiswyr ofyn am fformatio gwahanol gan y Tîm Derbyniadau.

4.22 Mae'r Coleg yn cydnabod yr angen am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgeiswyr am eu cais a bydd yn darparu diweddariadau a nodiadau atgoffa ar wahanol gamau o'r broses ymgeisio. Bydd pob ymgeisydd yn cael cydnabyddiaeth o'u cais ar UCAS neu drwy borth ymgeisio ar-lein y Coleg. Bydd ymgeiswyr hefyd yn cael cadarnhad o'u cynnig, cadarnhad o gyflawni eu cynnig a'u hymrestriad a gwybodaeth ragarweiniol. Efallai y bydd ymgeiswyr hefyd yn derbyn cyfathrebiadau gan Recriwtio Myfyrwyr a'r Ysgol Astudio.

4.23 Mae'r Coleg yn croesawu ceisiadau rhyngwladol i raglenni HN Pearson yn unig. Dylai myfyrwyr rhyngwladol wneud cais drwy lawrlwytho'r ffurflen gais ryngwladol ar y wefan, ei llenwi a'i dychwelyd i'r adran ryngwladol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol fodloni gofynion mynediad y cwrs drwy ddarparu prawf o'u cymwysterau gyda chyfieithiadau os oes angen a rhaid iddynt ddarparu prawf o fodloni gofynion Iaith Saesneg y cwrs, sef sgôr IELTS UKVI o 6.0 (heb unrhyw sgôr unigol sy'n llai na 5.5).

4.24 Os bydd myfyrwyr rhyngwladol yn bodloni'r amodau, byddant yn cael cynnig amodol, sydd hefyd yn esbonio'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf. Unwaith y bydd yr holl amodau'n cael eu bodloni a'r taliad yn cael ei wneud, bydd cynnig diamod yn cael ei wneud. Yna bydd yn rhaid i ymgeiswyr rhyngwladol fodloni gofynion Fisa a Mewnfudo'r DU er mwyn cael y fisa priodol i astudio yn y Coleg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar adran ryngwladol gwefan y Coleg.

4.25 Bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r wybodaeth berthnasol am y cwrs yn cael eu hysbysu i'r ymgeiswyr cyn gynted â phosib, gan gynnwys newidiadau i'r cynnwys, teitl, ffioedd, costau ychwanegol, neu ganslo.

4.26 Mae gan y Coleg yr hawl i ganslo cyrsiau nad ydynt yn bodloni isafswm niferoedd o ran recriwtio myfyrwyr, byddai ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ar unwaith ac yn cael cynnig cwrs arall yn y coleg os ydynt ar gael. Os yw ffioedd eisoes wedi'u talu, byddent yn cael eu had-dalu gweler y Polisi Ffioedd Myfyrwyr Addysg Uwch am ragor o wybodaeth.

4.27 Ni chaniateir i ymgeiswyr sydd mewn dyled i'r Coleg ymrestru yn y Coleg hyd nes y bydd y ddyled wedi'i chlirio'n llawn neu fod cynllun ad-dalu wedi'i gytuno gyda thîm Cyllid y coleg.

4.28 Gall ymgeisydd wneud cais am ohirio dechrau ei gwrs drwy ymgeisio i ohirio ei gais i'r Tîm Derbyn a fydd wedyn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am benderfyniad yr Ysgol Astudio. Bydd pob cais i ohirio yn cael ei asesu ar sail ei deilyngdod ei hun ac yn unol â pholisïau partneriaid dyfarnu.

4.29 Os na fydd ymgeisydd yn llwyddo i gael lle yn y coleg, yna bydd yn cael cyngor ac arweiniad am ei opsiynau eraill. Gellir gofyn am adborth gan yr adran Derbyniadau a gwneir pob ymdrech i'w ddarparu.

4.30 Os oes gan ymgeisydd gŵyn am broses dderbyniadau'r Coleg, dylid gwneud cwyn i'r Uwch Swyddog Derbyniadau yn admissions@nptcgroup.ac.uk. Dylai ymgeiswyr gynnwys eu henw llawn, dyddiad geni a'r cwrs y gwnaed cais amdano ynghyd â manylion eu cwyn, dylai teitl y pwnc ddarllen Cwyn Derbyniadau. Fel arfer, ymdrinnir â chwynion o fewn 10 niwrnod gwaith. Gweler Polisi Cwynion y Coleg am ragor o fanylion.

4.31 Bydd y Coleg yn ystyried apeliadau ynghylch canlyniad penderfyniad dethol. Dylid gwneud yr apêl i'r Uwch Swyddog Derbyniadau yn admissions@nptcgroup.ac.uk. Dylai ymgeiswyr gynnwys eu henw llawn, dyddiad geni a'r cwrs y gwnaed cais amdano gyda manylion yr apêl, dylid rhoi Apêl Derbyniadau fel teitl y pwnc. Ymatebir i apeliadau o fewn 10 niwrnod gwaith a chânt eu hystyried gan uwch staff Derbyniadau a staff o'r Ysgol Astudio.

4.32 Bydd y Coleg yn gweithio ar y cyd â sefydliadau mewnol ac allanol eraill, a all gynnwys:

- Grŵp Colegau NPTC
- Ysgolion a cholegau lleol
- Gyrfa Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf
- Darparwyr hyfforddiant
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- System Dderbyn Ganolog y Prifysgolion (UCAS)
- Sefydliadau AU Partner

## 5. Monitro

5.1 Cyfrifoldeb y Pennaeth Cynorthwyol: Ansawdd a Recriwtio yw sicrhau bod y Polisi hwn yn cael ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol ac yn deg. Caiff gweithdrefnau derbyn eu hasesu a'u datblygu'n rheolaidd gan y Grŵp Strategaeth Recriwtio Myfyrwyr a fydd yn adrodd i Uwch Dîm Rheoli'r Coleg.

5.2 Bydd y Polisi'n cael ei fonitro'n barhaus gan y Grŵp Strategaeth Recriwtio Myfyrwyr.

5.3 Bydd gwerthuso gan fyfyrwyr ac ymgeiswyr yn digwydd drwy gydol y flwyddyn. Bydd adborth yn cael ei gymryd yn ystod y cam cyfweld, ar ôl cofrestru, ac ar adegau addas eraill drwy holiaduron a grwpiau ffocws.

## 6. Adolygu

6.1 Bydd y Polisi'n cael ei adolygu bob dwy flynedd gan yr Uwch Swyddog Derbyniadau ar y cyd â'r Grŵp Strategaeth Recriwtio Myfyrwyr dan arweiniad y Pennaeth Cynorthwyol: Ansawdd a Recriwtio, ac fe gaiff ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm Rheoli cyn ei gymeradwyo'n derfynol.

6.2 Dyddiad yr adolygiad nesaf fydd mis Medi 2026.